Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Adolygiad Arbennig o'r Gwasanaethau Mamolaeth a Ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Monitro Cynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth

Cyhoeddir Cynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gwefan yr Ymddiriedolaeth ei hunan

Yn rhan o'i threfniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyfarfod yn fisol â Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth, y Prif Weithredwr Dros Dro ac uwch reolwyr eraill, i drafod y cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Gweithredu. Yn bresennol hefyd yn y cyfarfodydd mae cynrychiolaeth o'r Swyddfa Ranbarthol, yr Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol ac eraill sy'n cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i yrru ymlaen â'r gwaith datblygu hwn. Bydd nodyn cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC o fewn 10 diwrnod ar ôl pob cyfarfod monitro misol.

Yn y cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2008 nodwyd y canlynol.

***GWEITHREDOEDD A GWBLHAWYD*:**	
Gweithred 1:	Dwy swydd Uwch Reolwyr Bydwreigiaeth gradd 8 wedi eu llenwi
Gweithred 2:	Gwell mecanwaith cefnogi ar gyfer Uwch Reolwyr Bydwreigiaeth bellach wedi ei sefydlu.
Gweithred 6:	Adroddiad Perfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth bellach yn cynnwys mesurau perfformiad bydwreigiaeth.
Gweithred 8:	Gwell mecanweithiau cyfathrebu â Goruchwylwyr Bydwragedd/ Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer Bydwragedd bellach wedi eu sefydlu
Gweithred 12:	Sicrhawyd cefnogaeth yr Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol i'r arweinyddiaeth feddygol. Adolygiad Gweithredol Misol o'r cynnydd wedi ei drefnu. Bwrdd Strategaeth a Chyflenwi ar gyfer y Gwasanaethau Bydwreigiaeth wedi ei sefydlu.

***NODWYD CYNNYDD SYLWEDDOL*:**	
Gweithred 1:	Pennaeth Bydwreigiaeth: adolygwyd y rôl, cwblhawyd disgrifiad swydd a hysbysebwyd y swydd. Derbyniwyd nifer o geisiadau a chynhelir cyfweliadau ym mis Awst.
Gweithred 3:	Penodir Rheolwr Meddygol newydd erbyn diwedd Gorffennaf.
Gweithred 4:	Cynhaliwyd adolygiad ar gyfer cynllunio swydd Obstetrydd Ymgynghorol - cynlluniau swydd newydd i'w llofnodi erbyn Medi. Datblygwyd polisi drafft ar gyfer Presenoldeb yn y Ward Esgor.

Gweithred 7:	Trafodaeth yn y Bwrdd ar yr adolygiad o'r llwybr ar gyfer adrodd am faterion gweithredol wrth Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
Gweithred 8:	18 o fydwragedd wedi eu recriwtio a rhagor o recriwtio yn yr arfaeth.
Gweithred 10:	Gwaith yn mynd rhagddo ar y Strwythurau Arweinyddiaeth a Rheolaeth Glinigol, gyda chynlluniau i garfannau o arweinwyr bydwreigiaeth ddilyn rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Mae strategaeth fwy hirdymor ar gyfer arweinyddiaeth yn cael ei datblygu
Gweithred 11:	Datblygwyd Dogfen Cychwyn Prosiect ar gyfer Adolygiad Meddygaeth Ffetysol y Fam.

***ADDASIADAU YN OFYNNOL NEU WEDI EU GWNEUD*:**	
Gweithred 8:	Bu oedi cyn sicrhau arweinydd Coleg Brenhinol y Bydwragedd ar gyfer 'Birthrate Plus'. Roedd y sesiwn codi ymwybyddiaeth wedi ei threfnu ar gyfer Mehefin 2008, ond mae Arweinydd CBB wedi bod i ffwrdd dramor. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar drefnu dyddiad arall i'r sesiwn codi ymwybyddiaeth – hwyrach nad yw'n realistig ceisio ei chynnal cyn Medi 2008.
Gweithred 10:	Troeon o Amgylch Ffurfiol gan yr Arweinyddiaeth heb eu sefydlu ganol Mai, er bod troeon anffurfiol gan yr arweinwyr wedi eu trefnu. Y rhaglen ffurfiol i'w sefydlu yn Awst, yn dilyn achlysur codi ymwybyddiaeth a threfnu rhaglen.

Sylw AGIC ar y cyflawni hyd yma

1. Bu'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei Chynllun Gweithredu yn ddiwyd a chydag ymroddiad, o du'r Bwrdd a'r Uwch Reolwyr, er mwyn gwella'r sefyllfa. Mae cynnydd da yn digwydd ym hob elfen o'r Cynllun Gweithredu, ac y mae rhai elfennau bellach wedi eu cwblhau; er enghraifft, fel a nodir uchod, llenwyd nifer o uwch swyddi bydwreigiaeth a chyflynwyd gwell mecanweithiau i'w cefnogi. Gwnaed cynnydd arwyddocaol hefyd mewn perthynas â phrinder staff bydwreigiaeth, trwy fynd i'r afael â materion recriwtio. Mae arferion rhagorol yn dod i'r amlwg mewn rhai o'r meysydd eraill lle y nodir cynnydd uchod.

2. Yn gyffredinol, mae'r Ymddiriedolaeth yn symud ymlaen yn dda tuag at gyflawni ei Chynllun Gweithredu